GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

University of South Wales Prifysgol De Cymru

FFRAMWAITH ADDYSGOL ANABLEDD DYSGU I STAFF GOFAL IECHYD YNG NGHYMRU

RUTH NORTHWAY
EDWARD OLOIDI
RACHEL MORGAN
KATHRYN PRICE
CLARE CHURCHER

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyflwynir y fframwaith er cof am Paul Ridd.

PAM MAE ANGEN Y FFRAMWAITH HWN?

// TUDALEN 5

1

SUT MAE'R FFRAMWAITH WEDI'I DDATBLYGU?

// TUDALEN 7

2

BETH YW'R GWERTHOEDD A'R EGWYDDORION Y MAE'R FFRAMWAITH HWN WEDI'I SEILIO ARNYNT?

// PAGE 8

3

DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH

// TUDALEN 11

4

Y FFRAMWAITH CYMHWYSEDD

// TUDALEN 13

5

CYFLAWNI CYMHWYSEDD

// TUDALEN 34

6

SYLWADAU I GLOI

// TUDALEN 36

7

CYFLWYNIAD

Datblygwyd y Fframwaith Addysgol Anabledd Dysgu i Staff Gofal Iechyd yng Nghymru o ganlyniad i Raglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru[1]. Mae meithrin gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd ar draws y gweithlu yn gam gweithredu allweddol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl ag anableddau dysgu.

RHAGAIR

gan y Prif Swyddog Nyrsio

Cyflwynaf y fframwaith addysg hwn "Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu ar gyfer Staff Gofal Iechyd yng Nghymru" er cof am Paul Ridd a gwaith ei deulu a sefydlodd Paul Ridd Foundation yn enw Paul. Trwy'r sefydliad, mae'r teulu wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi gwasanaeth iechyd Cymru i ddeall anghenion pobl ag anabledd dysgu yn well ac i ystyried y ffordd orau i ymateb i'r anghenion hynny. Yn aml, cyfeirir at hyn fel gwneud addasiadau rhesymol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers tro i wella ansawdd bywyd pobl ag anabledd dysgu. Yn 2018, gwnaethom lansio ein Rhaglen Gwella Bywydau traws-lywodraethol a luniwyd i sicrhau gwasanaethau ymatebol a phriodol i bobl ag anabledd dysgu. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau ddeg pedwar cam gweithredu; un ohonynt yw sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i gynorthwyo pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd y GIG sydd o ansawdd da.

Mae sicrhau bod gan staff gofal iechyd yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i adnabod a diwallu anghenion iechyd pobl ag anabledd dysgu yn elfen hanfodol o leihau'r anghydraddoldebau iechyd hysbys ac atal marwolaethau y gellir eu hosgoi. Ym mis Tachwedd 2019, gwnaeth y Dirprwy Weinidog i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymiad i fandadu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer holl staff y GIG mewn ymateb i ddeiseb gan Paul Ridd Foundation. Yn ogystal, amlinellodd y Dirprwy Weinidog gynlluniau i sefydlu rhaglen addysg genedlaethol i sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio mewn lleoliad gofal iechyd y sgiliau a'r hyfforddiant priodol sy'n angenrheidiol iddynt wneud yr addasiadau rhesymol sy'n sicrhau bod unigolion ag anabledd dysgu yn cael eu trin yn effeithiol ac yn derbyn gofal o ansawdd uchel sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu ar gyfer Staff Gofal Iechyd yng Nghymru yn cynnig dull cynhwysfawr a strwythuredig o sicrhau bod staff gofal iechyd yn cael eu cefnogi i ddeall anghenion pobl ag anabledd dysgu yn well a sicrhau'r lefel briodol o wybodaeth, sgil a chymhwysedd sy'n berthnasol i'w rôl yn unrhyw leoliad gofal iechyd, nid mewn ysbytai yn unig.

Elfen bwysig o'r fframwaith hwn yw'r lefel Sylfaen sy'n hyfforddiant hanfodol i'r holl staff gofal iechyd mewn rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd/cleifion. Mae haenau dau a thri o'r fframwaith yn disgrifio cymhwysedd a gwybodaeth fanylach wedi'u targedu at staff mewn rolau allweddol. Bydd hyn yn sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r materion ac yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gleifion unigol a'u teuluoedd.

Yn anffodus, mae'r her o reoli'r pandemig wedi gohirio cyflwyno'r fframwaith. Fodd bynnag, wrth inni symud yn obeithiol tuag at adferiad, gallwn ddechrau gweithredu. Yn y pen draw, bydd gweithredu'r fframwaith yn meithrin hyder bod gan y gweithlu gofal iechyd y gwerthoedd, yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd cywir i ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg iawn.

Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

I ddarllen stori Paul ac i ddeall mwy am waith Paul Ridd Foundation, ymwelwch ag: https://paulriddfoundation.org/

1. PAM MAE ANGEN Y FFRAMWAITH HWN?

Dywed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[2] bod gan bobl anabl 'hawl i fwynhau'r safonau iechyd mwyaf cyraeddadwy heb wahaniaethu ar sail anabledd' (Erthygl 25). Yn ogystal, mae'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd proffesiynol ddarparu gofal o'r un safon â'r hyn a ddarperir i bobl nad ydynt yn anabl.

Fodd bynnag, mae nifer o adroddiadau yn dogfennu'r anghydraddoldebau iechyd mae pobl ag anableddau dysgu yn eu hwynebu[3], [4], [5],[6]. O'r adroddiadau hyn, mae'n ymddangos y gallai pobl ag anableddau dysgu fod yn agored i niwed gan nad yw eu hanghenion iechyd yn cael eu cydnabod, ac felly nid ydynt yn cael eu bodloni. Efallai eu bod yn cael mwy o drafferth manteisio ar wasanaethau gofal iechyd a phan maent yn derbyn gwasanaethau, mae'n bosibl nad ydynt o ansawdd derbyniol. Yn y pen draw, mae rhwystrau tebyg yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol pobl ag anableddau dysgu, a nodwyd marwolaethau cynamserol a marwolaethau y gellid eu hosgoi drwy driniaeth 5, [7]. Serch hynny, ni ddylai'r nodweddion bregus hyn fod yn ganlyniad anochel o fod ag anabledd dysgu: gellir nodi a mynd i'r afael â rhwystrau rhag gofal iechyd priodol ac amserol.

Thema reolaidd mewn adroddiadau ac ymchwil ehangach [8], [9],[10] yw'r angen i'r holl staff gofal iechyd fod â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i nodi a bodloni anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu. Yn wir, mae hyn yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o ran lleihau'r anghydraddoldebau iechyd a nodwyd.
Felly, mae sawl nod i'r fframwaith addysgol hwn:

- Amlinellu'r wybodaeth, sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen yn y gweithlu gofal iechyd.
- Gwella gallu pobl ag anableddau dysgu i fanteisio ar ddarpariaeth gofal iechyd o ansawdd uchel yn brydlon.
- Hybu hyder ymhlith pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, gan sicrhau bod gan y gweithlu'r gwerthoedd, gwybodaeth, sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir.
- Cynorthwyo gweithwyr, rheolwyr a sefydliadau unigol i gynllunio a chefnogi'r addysg, hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus priodol ymhlith staff gofal iechyd.
- Arwain datblygiad darpariaeth addysgol i ategu gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd gweithwyr gofal iechyd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.

Er bod y ddogfen wedi'i hanelu at staff a sefydliadau gofal iechyd yn bennaf, cydnabyddir bod staff o gefndiroedd eraill (fel gofal cymdeithasol) yn chwarae rôl bwysig mewn adnabod a diwallu anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu hefyd. Felly, gall rhai o'r meysydd cymhwysedd fod yn berthnasol iddynt hwy hefyd.

Am enghreifftiau o brofiadau personol pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, darllenwch straeon Martha, Anita, Geraint a Gwnyfor (atodiad 1.)

2. SUT MAE'R FFRAMWAITH WEDI'I DDATBLYGU?

Ymgymerwyd â nifer o weithgareddau er mwyn datblygu'r fframwaith hwn:

- Cwblhawyd adolygiad o ymchwil berthnasol a fframweithiau addysgol presennol. Nodwyd a dogfennwyd themâu allweddol o'r adolygiad hwn.
- Cynhaliwyd cyfres o gyfweliad ffôn ag ystod o randdeiliaid allweddol (n=22) a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau'r trydydd sector, aelodau teulu, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, cynrychiolwyr gofal cymdeithasol, darparwyr addysg gofal iechyd a rheolwyr gofal iechyd. Cynhwyswyd staff sy'n gweithio mewn gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, a chyfranogodd ystod o broffesiynau gofal iechyd. Holwyd barn cyfranogwyr yn y cyfweliadau hyn ynghylch y gwerthoedd a ddylai fod wrth wraidd y fframwaith arfaethedig, ei gynnwys posibl, dulliau posibl o gyflawni cymhwysedd ac asesu cymhwysedd. Ymatebodd 3 chyfranogydd arall i'r un cwestiynau drwy holiadur e-bost. Yn ystod y cyfweliadau, gwnaed nodiadau a'u hadolygu er mwyn nodi themâu cyffredin a materion a oedd yn codi dro ar ôl tro.
- ynhaliwyd ymgynghoriad â'r Pwyllgor Cynghori ar Addysgu ac Ymchwil (Teaching and Research Advisory Committee TRAC) ym Mhrifysgol De Cymru. Mae TRAC yn grŵp o oedolion ag anableddau dysgu sy'n cyfarfod yn fisol yn y brifysgol, ac sy'n cyfrannu'n weithgar at ddatblygu, cyflwyno ac asesu dysgu i fyfyrwyr nyrsio a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- Cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid ac ymgynghoriad pellach drwy'r e-bost, lle y ceisiwyd adborth ar fersiwn ddrafft o'r fframwaith.

Cyfosodwyd gwybodaeth o bob un o'r gweithgareddau hyn er mwyn datblygu'r fframwaith a gyflwynir yn y ddogfen hon. Felly, mae wedi'i seilio ar dystiolaeth ymchwil gyfredol ac ar farnau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

3. BETH YW'R GWERTHOEDD A'R EGWYDDORION Y MAE'R FFRAMWAITH HWN WEDI'I SEILIO ARNYNT?

Mewn llenyddiaeth ehangach a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, roedd pwysigrwydd sicrhau bod y fframwaith hwn wedi'i seilio ar set glir o werthoedd yn amlwg. Y canlynol, felly, yw'r gwerthoedd sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith, ac a ddylai lywio ei roi ar waith hefyd:

- **Hawliau –** hawliau pobl ag anableddau dysgu i ofal iechyd o ansawdd cyfartal yw'r man cychwyn ar gyfer datblygu'r fframwaith hwn. Fodd bynnag, mae hawliau eraill fel yr hawl i fywyd, yr hawl i hygyrchedd, yr hawl i ryddid rhag triniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol, neu gosbedigaeth, yr hawl i ryddid rhag cam-drin ac artaith, yr hawl i fyw'n annibynnol yn y gymuned, yr hawl i barch i'r cartref a'r teulu, yr hawl i addysg a gwaith, yr hawl i safon byw a diogelwch cymdeithasol digonol2 yn berthnasol hefyd.
- **Cydraddoldeb –** mae'r fframwaith hwn wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylai pobl ag anableddau dysgu allu manteisio ar ofal iechyd o safon gyfartal i'r hyn y mae dinasyddion eraill yn ei derbyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu darparu'r un math o ofal bob tro, ond yn hytrach yr angen i ragweld a bodloni'r angen am addasiadau rhesymol i ofal a phrosesau gofal fel y gellir diwallu anghenion gwahanol, a chyflawni gofal o safon gyfartal.

- **Canolbwyntio ar yr unigolyn –** mae'r term 'anabledd dysgu' yn cwmpasu ystod eang o brofiadau personol, sy'n cynnwys natur a graddau'r anabledd dysgu, rhywedd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, amgylchiadau byw ac ethnigrwydd. Bydd pob un o'r nodweddion personol hyn yn effeithio ar brofiad bywyd unigolion, ac felly ar y ffordd/ffyrdd y byddant yn cael profiad o anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn golygu bod angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gydnabod bod pobl ag anableddau dysgu yn grŵp amrywiol ag anghenion gwahanol, felly mae angen dull cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn ogystal, mae nifer o egwyddorion allweddol sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn, ac a ddylai lywio ei roi ar waith hefyd.

- **Rhannu cyfrifoldeb –** mae'r fframwaith hwn wedi'i seilio ar yr egwyddor bod pob aelod staff gofal iechyd yn gyfrifol am fynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl ag anableddau, a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn golygu, p'un a yw staff yn gweithio mewn swydd glinigol, weinyddol neu reolaethol, mae gan bob un ohonynt rôl i'w chwarae.
- **Cydweithio a phartneriaeth –** bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ond yn cael ei gyflawni drwy staff a sefydliadau gofal iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Hefyd, mae angen iddynt gydweithio â'i gilydd yn effeithiol.
- **Dull gydol oes –** wrth i unigolion dyfu a datblygu, mae eu hanghenion yn newid ac felly mae angen teilwra eu hanghenion cymorth yn briodol. Felly, mae'r fframwaith hwn yn cydnabod bod angen i staff gofal iechyd fod yn barod i nodi ac ymateb i anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu ar hyd eu hoes. Hefyd, mae angen iddynt allu gweithio ar draws ffiniau gwasanaeth yn gysylltiedig ag oedran mewn darpariaeth gofal iechyd i leihau'r posibilrwydd i gymorth fethu neu ymrannu.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi er mai nod cyffredinol y fframwaith hwn yw sicrhau y gall pobl ag anableddau dysgu fanteisio ar gymorth medrus gan staff gofal iechyd, mae angen i'r sgiliau hyn gael eu tanategu gan werthoedd a gwybodaeth briodol. Felly, mae Ffigur 1 yn amlinellu'r strwythur a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r cymwyseddau yn y fframwaith hwn.

Gwelir bod y gwerthoedd y mae angen i staff eu harddel yn ffurfio sail i'r cymhwysedd. Felly, mae'r fframwaith yn cynnwys adran ar wahân sy'n canolbwyntio ar y gwerthoedd y mae angen i'r holl staff eu harddangos. Mae angen iddynt gaffael gwybodaeth briodol a throsi'r gwerthoedd a'r wybodaeth hyn yn arfer drwy ddangos y sgiliau priodol. Felly, mae gwerthoedd, gwybodaeth a sgiliau yn gydberthnasol ac yn gyd-ddibynol. Caiff datganiadau cymhwysedd yn ymwneud â gwybodaeth a sgiliau eu hamlinellu yn y fframwaith.

Ffigur 1: Y berthynas rhwng gwerthoedd, gwybodaeth a sgiliau



4. DEFNYDDIO'R FFRAMWAITH

Bwriedir i'r fframwaith hwn gael ei ddefnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys

- Gan staff gofal iechyd unigol i nodi eu lefel gymhwysedd gyfredol a'u hanghenion dysgu.
- Gan dimau staff i nodi eu lefel gymhwysedd gyfredol a'u hanghenion dysgu.
- Gan adrannau addysg a hyfforddiant mewn sefydliadau sy'n darparu gofal iechyd i gynllunio cyfleoedd addysgol i staff. Gall hyn gynnwys datblygu darpariaeth addysgol newydd a chynnwys y cymwyseddau hyn mewn darpariaeth bresennol (er enghraifft mewn hyfforddiant cydraddoldeb).
- Gan ddarparwyr addysg uwch i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm.
- Gan sefydliadau gofal iechyd i archwilio darpariaeth addysgol gyfredol.
- Gan arolygwyr a chomisiynwyr gofal iechyd i feincnodi darpariaeth addysgol a chymorth mewn gwasanaethau.
- Gan gyrff proffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygu safonau addysgol proffesiynol.

Wrth ddefnyddio'r fframwaith hwn, mae hefyd yn bwysig croesgyfeirio at fframweithiau addysgol a chymhwysedd eraill, fel y rhai sy'n ymwneud â phroffesiynau gofal iechyd unigol a'r rhai a ddatblygwyd ar sail Cymru gyfan. Rhoddir rhai enghreifftiau o'r rhain ym Mlwch 1 isod, ond mae'r rhain yn enghreifftiol yn hytrach nag yn hollgynhwysol.

Blwch 1: Enghreifftiau o fframweithiau addysgol perthnasol eraill

- **Fframwaith Sefydlu Cymru gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
  https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/sefydlu-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-awif
- **Fframwaith Cymwysterau Dysgu Iechyd a Gofal Cymru**
  https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/
- **Fframwaith Dysgu a Datblygu GIG Cymru**
  (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)

5. Y FFRAMWAITH CYMHWYSEDD

Yn y fframwaith hwn, defnyddir ymagwedd haenog tuag at gymhwysedd, lle ceir ffocws ar dair lefel o gymhwysedd:

- **Sylfaenol -** y gwerthoedd, gwybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar holl staff gofal iechyd.
- **Estynedig -** y gwerthoedd, gwybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y staff gofal iechyd hynny y mae eu rôl yn dod â nhw i gysylltiad rheolaidd â phobl ag anableddau dysgu.
- **Uwch –** y gwerthoedd, gwybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hynny sy'n arbenigo mewn gweithio â phobl ag anableddau dysgu.

Dylid pwysleisio bod y lefel Sylfaenol yn berthnasol i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan gynnwys staff derbynfa a gweinyddol, porthorion a staff cadw tŷ cymhennu, staff clinigol, rheolwyr ac aelodau'r bwrdd. Mae angen i staff sy'n gweithio ar y lefel Estynedig allu dangos y cymwyseddau ychwanegol hynny a nodwyd ar gyfer y lefel honno, yn ogystal â'r rhai ar y lefel Sylfaenol. Yn yr un modd, mae angen i staff sy'n gweithio ar y lefel Uwch allu dangos y cymwyseddau ychwanegol ar y lefel honno, yn ogystal â'r rhai ar y lefelau Sylfaenol ac Estynedig.

Ffigur 2: Y meysydd allweddol yn y fframwaith addysgol

Mae Ffigur 2 uchod yn rhoi trosolwg o'r fframwaith. Yng nghanol y fframwaith, mae'r gwerthoedd y disgwylir i staff eu harddel. Mae'r gwerthoedd hyn yn llywio ac yn tanategu saith maes allweddol, y mae pob un ohonynt yn cynnwys cymwyseddau yn ymwneud â'r wybodaeth a'r sgiliau cysylltiedig. Cânt eu cyflwyno yma fel cylchred i adlewyrchu'r ffaith bod pob maes yn gysylltiedig â'r lleill ac yn effeithio arnynt. Er enghraifft, er mwyn deall ymddygiad ac ymateb iddo, mae angen y wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu.

5.2 Gwerthoedd

Y canlynol yw'r gwerthoedd allweddol sy'n gyffredinol bwysig mewn lleoliadau gofal iechyd ond sy'n cael eu nodi yma yn arbennig o bwysig wrth geisio sicrhau y gall pobl ag anableddau dysgu fanteisio ar ofal iechyd. Yn wahanol i'r meysydd cymhwysedd eraill y manylir arnynt yn y ddogfen hon, nid yw'r gwerthoedd hyn yn cael eu nodi ar lefelau gwahanol, gan yr ystyrir bod eu hangen ar bob aelod staff ar bob lefel.

Dylai staff gofal iechyd:

- Fod yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u rhagfarnau personol a sut gallai'r rhain effeithio ar eu rhyngweithiadau â phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u cynorthwywyr.
- Gwerthfawrogi pobl ag anableddau dysgu fel unigolion â galluoedd, cryfderau ac anghenion gwahanol.
- Parchu hawl pobl ag anableddau dysgu i gydraddoldeb, ymreolaeth, urddas, tosturi a chynhwysiant.
- Cydnabod pwysigrwydd addasu'r ffordd y caiff gofal a gwasanaethau eu darparu er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n briodol i'w hoedran.

Er caiff y gwerthoedd hyn eu nodi ar wahân yma i amlygu eu harwyddocâd, dylid nodi eu bod yn gynhenid i bob un o'r saith maes y manylir arnynt isod, ac yn ffurfio sail iddynt. Felly, disgwylir i'r holl staff sy'n gweithio ar bob lefel ddangos y gwerthoedd hyn ym mhob agwedd ar eu gwaith â phobl ag anableddau dysgu.

5.3 Maes allweddol 1: Deall anabledd dysgu

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn deall ystyr y term ‘anabledd dysgu’.
- Yn gwybod bod y term ‘anabledd dysgu’ yn cael ei gymhwyso i bobl ag ystod eang o gryfderau ac anghenion amrywiol.
- Yn cydnabod bod anabledd dysgu’n effeithio ar unigolion mewn ffyrdd gwahanol.
- Yn deall pwysigrwydd dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Yn gwybod y gall pobl ag anableddau dysgu fod ag cyflyrau sy’n cyd-ddigwydd ambell waith, fel anhwylder sbectrwm awtistig.
- Yn deall bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu hanalluogi gan ystod o rwystrau cymdeithasol, corfforol, economaidd a seicolegol (y model anabledd cymdeithasol).

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy’n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall y gall effaith anableddau dysgu ar yr unigolyn amrywio dros amser ac yn dibynnu ar y cyd-destun.
- Yn ymwybodol o stigma a’r effaith y gall hyn ei chael ar fywydau pobl ag anableddau dysgu.
- Yn gwybod nad yw’r rhwystrau maent yn eu hwynebu yn rhan anochel o fod ag anabledd dysgu – gellir cael gwared â nhw neu eu lleihau.
- Yn cydnabod bod ganddynt rôl i’w chwarae o ran cydnabod a lleihau’r rhwystrau hyn.



Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall anhwylderau genetig penodol (er enghraifft Syndrom Down a Syndrom X Fregus) a'r ffyrdd y gallant effeithio ar unigolion.
- Yn deall hanes y bobl ag anableddau dysgu maent yn eu cefnogi a sut mae'r hanes hwn yn effeithio ar eu sefyllfa bresennol.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd pob aelod staff yn gallu:

- Adnabod pan allai rhywun fod ag anabledd dysgu.
- Addasu eu cymorth yn unol ag anghenion pobl ag anableddau dysgu.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Herio'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n cael eu profi gan bobl ag anableddau dysgu.
- Yn cynorthwyo pobl eraill i ddeall yr effaith y gall anableddau dysgu ei chael ar unigolyn.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Bod yn ffynhonnell o gyngor arbenigol yn ymwneud ag anableddau dysgu, gan gynnwys cyflyrau genetig penodol.
- Defnyddio eu dealltwriaeth o hanes unigolyn i ddatblygu pecynnau priodol o gymorth.

Maes allweddol 2:
Anghenion iechyd pobl ag anabledd dysgu

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn gwybod bod pobl ag anableddau dysgu'n profi'r un ystod o broblemau iechyd meddwl a chorfforol â'u cyfoedion nad oes ganddynt anableddau dysgu.
- Yn deall y gall y problemau iechyd hyn ymddangos yn wahanol ymhlith pobl ag anableddau dysgu, ambell waith.
- Yn cydnabod y gall pobl ag anableddau dysgu brofi nifer o broblemau iechyd sy'n cyd ddigwydd, ambell waith.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall cysyniad cysgodi diagnostig.
- Yn ymwybodol o anghenion iechyd penodol pobl â syndromau penodol, fel Syndrom Down.
- Yn ymwybodol o'r profion iechyd blynyddol sydd ar gael i bobl ag anableddau dysgu.
- Yn deall effaith y broses heneiddio ar anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu.
- Yn ymwybodol o offer penodol y gellir eu defnyddio â phobl ag anableddau dysgu i asesu poen a thrallod (er enghraifft (The Abbey Pain Scale)).
- Yn ymwybodol o ffactorau risg penodol y gallai pobl ag anableddau dysgu eu profi (er enghraifft dysffagia ac epilepsi).
- Yn deall pwysigrwydd hyrwyddo iechyd pobl ag anableddau dysgu.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd gan staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Wybodaeth uwch am anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu.
- Dealltwriaeth uwch o sut gallai'r anghenion iechyd hyn effeithio ar bobl ag anableddau dysgu.
- Gwybodaeth am gyflyrau iechyd cymhleth.
- Gwybodaeth am ystod o strategaethau y gellir eu defnyddio i hybu iechyd ymhlith pobl ag anableddau dysgu.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd pob aelod staff yn gallu:

- Adnabod pan fydd pobl ag anableddau dysgu yn wael, mewn poen neu drallod.
- Ceisio cymorth priodol i sicrhau y caiff yr anghenion hyn eu bodloni.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Ymateb yn briodol i arwyddion o afiechyd (meddwl a chorfforol) ymhlith pobl ag anableddau dysgu.
- Cynnig cymorth cyntaf corfforol a meddyliol.
- Rheoli ffitiau epileptig.
- Ceisio cymorth arbenigol priodol, yn ôl yr angen.
- Annog pobl ag anableddau dysgu i dderbyn y prawf iechyd blynyddol.
- Rhoi cyngor hybu iechyd i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd / gofalwyr.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Rheoli cyflyrau iechyd cymhleth.
- Bod yn ffynhonnell o wybodaeth arbenigol.
- Addysgu pobl eraill am anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu.
- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni hybu iechyd i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

Maes allweddol 3: Cydnabod a Chael Gwared â Rhwystrau rhag Gofal Iechyd

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn ymwybodol o'r anghydraddoldebau iechyd mae pobl ag anableddau dysgu yn eu hwynebu.
- Yn cydnabod y gallai cyflawni cydraddoldeb o ran gofal iechyd olygu darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol.
- Yn deall y cysyniad o addasiadau rhesymol.
- Yn cydnabod ac yn deall pwysigrwydd y pasbort iechyd i hybu'r gallu i fanteisio ar ofal iechyd priodol i bobl ag anableddau dysgu.
- Yn ymwybodol o'r bwndel gofal anableddau dysgu.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall eu rôl o ran sicrhau y caiff y Bwndel Gofal[11] ei roi ar waith.
- Yn ymwybodol o'r prif rwystrau a all gyfyngu ar allu pobl ag anableddau dysgu i fanteisio ar ofal iechyd.
- Yn ymwybodol o'r angen am addasiadau rhesymol rhagweledol.
- Yn deall y cysyniad o asesu risg a'i bwysigrwydd o ran darparu cymorth priodol.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall y sylfaen dystiolaeth yn ymwneud â'r anghydraddoldebau iechyd mae pobl ag anableddau dysgu yn eu profi.
- Yn deall eu rôl o ran nodi a chael gwared â rhwystrau rhag gofal iechyd.
- Yn meddu ar wybodaeth uwch am asesu risg, gan gynnwys yng nghyd-destun anghenion cymhleth.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Addasu'r ffordd maent yn cyflwyno eu gwasanaeth er mwyn hybu mynediad cyfartal i bob ag anableddau dysgu.
- Defnyddio'r proffil iechyd i gynorthwyo i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n briodol i anghenion unigol.
- Cyfrannu at roi'r Bwndel Gofal10 ar waith, fel y bo'n briodol.

Lefel Estynedig

In addition, staff working at this level will be able to:

- Cwblhau'r asesiad dibyniaeth risg.
- Cynorthwyo i gwblhau'r Proffiliau Iechyd.
- Monitro gweithrediad y Bwndel Gofal.
- Asesu'r eu man gwaith i nodi lle y gallai fod angen addasiadau rhesymol rhagweledol.
- Rhoi addasiadau rhesymol ar waith.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Addysgu staff gofal iechyd eraill am y Proffiliau Iechyd a'r Bwndel Gofal.
- Defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i nodi a chael gwared â rhwystrau rhag gofal iechyd i bobl ag anableddau dysgu.
- Ymgymryd ag asesiadau risg cymhleth.

Maes allweddol 4:
Deall Ymddygiad ac Ymateb Iddo

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn deall bod ystyr i bob ymddygiad, a bod ymddygiad yn ddull cyfathrebu.
- Yn ymwybodol y gall pobl ag anableddau dysgu gyfleu poen, salwch a thrallod drwy newidiadau yn eu hymddygiad ambell waith, yn hytrach na thrwy eiriau.
- Yn cydnabod y bydd y ffordd maent yn rhyngweithio ag unigolion ag anableddau dysgu yn effeithio ar eu hymddygiad.
- Yn ymwybodol y gall aelodau teulu a/neu gefnogwyr eraill roi gwybodaeth hanfodol am yr hyn sy'n normal ar gyfer unigolyn (ac felly pan gall newidiadau olygu bod angen gweithredu).

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn deall egwyddorion sylfaenol cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol.
- Yn ymwybodol o sut gall gorbryder a thrallod effeithio ar benderfyniadau.
- Yn cydnabod y gall ymddygiad ac/neu amgylcheddau penodol sbarduno gorbryder a thrallod.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Wybodaeth dda am gymorth ymddygiad cadarnhaol.
- Gwybodaeth dda am sut y gellir defnyddio egwyddorion cymorth ymddygiad cadarnhaol i wella'r gallu i bobl ag anableddau dysgu fanteisio ar ofal iechyd.
- Gwybodaeth dda am sgiliau uwch asesu ymddygiad.
- Dealltwriaeth uwch o'r cysylltiadau rhwng ymddygiad ac iechyd.
- Dealltwriaeth dda o ddulliau sy'n ceisio lleihau'r defnydd o feddyginiaeth i reoli ymddygiad heriol mewn lleoliadau gofal iechyd.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Addasu eu hymddygiad personol i fodloni anghenion pobl ag anableddau dysgu.
- Ymateb yn briodol i arwyddion o orbryder a thrallod.
- Casglu gwybodaeth gan deulu/cefnogwyr, fel y bo'n briodol.
- Defnyddio'r wybodaeth hon i addas cymorth a/neu geisio cymorth ychwanegol.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Dad-dwysáu / tawelu sefyllfaoedd a all fod yn anodd.
- Cyfeirio at wasanaethau arbenigol am gymorth ychwanegol, yn ôl yr angen.
- Gwneud addasiadau i'r gofal a ddarperir er mwyn lleihau gorbryder a thrallod.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Bod yn ffynhonnell o gyngor arbenigol i aelodau staff eraill o ran deall ac ymateb i ymddygiad.
- Datblygu cynlluniau gofal sy'n adnabod anghenion ymddygiadol ac yn mynd i'r afael â nhw.
- Rhoi cyngor (lle bo hynny'n briodol) yn ymwneud â gafael yn therapiwtig.
- Datblygu rhaglenni i gefnogi dadsensiteiddio.

Maes allweddol 5: Cyfathrebu

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn ymwybodol o'r ystod o ffyrdd y gall pobl ag anableddau dysgu gyfathrebu.
- Yn deall pwysigrwydd addasu cyfathrebu personol i fodloni anghenion unigol.
- Yn deall sut gall namau synhwyraidd effeithio ar gyfathrebu.
- Yn deall y gall rhwystrau rhag cyfathrebu effeithio ar bobl ag anableddau dysgu.
- Yn ymwybodol o'r angen i osgoi defnyddio 'jargon' a defnyddio iaith glir yn lle hynny.
- Yn ymwybodol o'r angen i wirio dealltwriaeth.
- Yn ymwybodol o sut gall pobl sy'n adnabod unigolyn yn dda (fel teulu a gweithwyr cymorth) roi gwybodaeth bwysig am sut mae unigolyn yn cyfleu ei (h)anghenion, fel arfer.
- Yn ymwybodol o'r angen i feithrin ymddiriedaeth.
- Yn ymwybodol o'r angen i gyfathrebu mewn modd sy'n addas i oedran yr unigolyn.
- Yn deall y gall gymryd mwy o amser i bobl ag anableddau dysgu brosesu gwybodaeth.



Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn ymwybodol o'r angen i asesu anghenion cyfathrebu.
- Yn deall pwysigrwydd ymgynghori â phobl eraill i ddeall patrymau a dulliau cyfathrebu arferol.
- Yn ymwybodol o ffynonellau o wybodaeth arbenigol i helpu â chyfathrebu, a sut i fanteisio ar y cymorth hwn.
- Yn deall sut gall rhwystrau rhag cyfathrebu effeithio ar bobl ag anableddau dysgu.
- Yn deall sut mae unigolion yn cyfleu poen a thrallod fel arfer.
- Yn ymwybodol o ddulliau cyfathrebu amgen ac atodol.
- Yn ymwybodol o'r ffactorau a all effeithio ar gyfathrebu (er enghraifft gorbryder, poen, trallod a'r amgylchedd ffisegol).
- Yn deall yr angen i addasu eu cyfathrebu i fodloni anghenion unigolion a all fod â llythrennedd iechyd cyfyngedig.
- Yn ymwybodol o'r angen i addasu eu dull cyfathrebu personol i hwyluso asesu.
- Yn deall pwysigrwydd gwybodaeth sy'n hawdd ei darllen.
- Yn deall rôl eiriolwyr.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn ymwybodol o'r angen i addasu eu cyfathrebu personol i hwyluso asesiad cywir ac adnabod anghenion.
- Yn deall anghenion cyfathrebu cymhleth.
- Yn meddu ar wybodaeth dda am ddulliau cyfathrebu allweddol, fel Makaton, symbolau Bliss ac ati.
- Yn meddu ar wybodaeth dda am dechnoleg gynorthwyol.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Cyfathrebu'n effeithiol ac mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n addas i'w (h)oedran wrth gyfathrebu ag unigolion ag anableddau dysgu.
- Yn cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd a chefnogwyr pobl ag anableddau dysgu.
- Yn dangos sgiliau gwrando effeithiol.
- Yn dangos y gallu i feithrin perthynas ymddiriedus.
- Yn amyneddgar wrth gyfathrebu â phobl ag anableddau dysgu.
- Yn cyfathrebu'n effeithiol â phobl eraill ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Lefel Estynedig

- Dangos y gallu i addasu cyfathrebu personol er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigolion eu adnabod a'u diwallu.
- Dangos y gallu i ddatblygu gwybodaeth sy'n hawdd ei darllen.
- Dangos y gallu i wirio dealltwriaeth.
- Dangos y gallu i esbonio gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n briodol i anghenion unigol.
- Dangos y gallu i fanteisio ar gymorth arbenigol, yn ôl y gofyn.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Dangos y gallu i gyfathrebu ar draws ffiniau sefydliadol.
- Dangos sgiliau cyd-drafod effeithiol.
- Dangos y gallu i ddatblygu gwybodaeth sydd wedi'i theilwra i fodloni anghenion unigol.
- Dangos y gallu i gael sgyrsiau 'anodd'.
- Bod yn eiriolwr effeithiol ar lefel unigol, grŵp a sefydliadol.
- Dangos sgiliau uwch wrth gofnodi hanes unigolion, gan gynnwys y gallu i gasglu a chyfosod gwybodaeth o ystod o ffynonellau.



Maes allweddol 6: Cydlynu a chydweithio

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff:

- Yn deall y rôl allweddol mae teuluoedd a gofalwyr eraill yn ei chwarae o ran cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu.
- Yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a gofalwyr/cefnogwyr eraill.
- Yn gwybod pryd a lle i geisio cymorth arbenigol, yn ôl y gofyn.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau gwahanol sydd ar waith i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu mewn lleoliadau gofal iechyd (er enghraifft systemau fflagio a llwybrau gofal).
- Yn deall yr angen i drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol ac yn briodol rhwng unigolion ac asiantaethau.
- Yn gwybod sut i gysylltu â'u tîm cefnogol cymunedol lleol.
- Yn deall y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan dimau cefnogol cymunedol.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu i drefnu cefnogol arbenigol.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon:

- Yn gwybod sut i ddatblygu cynlluniau rheoli a llwybrau gofal unigol.
- Yn deall llwybrau asesu arbenigol.
- Yn deall systemau cefnogol ehangach (nad ydynt yn rhai arbenigol ar gyfer anableddau dysgu) a phwysigrwydd manteisio ar y rhain i sicrhau y darperir cymorth priodol a chydlynus.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Sicrhau cymorth ychwanegol i ddiwalu anghenion pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, yn ôl y gofyn.
- Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn sicrhau cymorth amserol a phriodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Triongli gwybodaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn datblygu cynllun priodol o ofal a chefnogaeth.
- Uwchgyfeirio pryderon, fel y bo'n briodol.
- Sicrhau mewnbwn gan wasanaethau chefnogaeth anableddau dysgu, a chydweithio â nhw'n effeithiol.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o wasanaethau cefnogaeth nad ydynt ar gyfer anableddau dysgu, er mwyn sicrhau pecynnau cymorth effeithiol i unigolion.
- Datblygu, cydlynu a monitro pecynnau cefnogaeth 'r rhai ag anghenion iechyd cymhleth.
- Dangos sgiliau arweinyddiaeth.
- Dangos y gallu i weithio ar draws ffiniau sefydliadol mewn a rhwng sefydliadau.

Maes allweddol 7: Materion Cyfreithiol a Pholisi

Gwybodaeth

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Yn ymwybodol bod gan bobl ag anableddau dysgu yr un hawliau â dinasyddion eraill.
- Yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol mewn perthynas â diogelu.
- Yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd a chyfyngiadau cyfrinachedd.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UN 2006).
- Yn ymwybodol o brif ddarpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998).
- Yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a nodweddion gwarchodedig.
- Yn ymwybodol o'r sail gyfreithiol ar gyfer addasiadau rhesymol.
- Yn ymwybodol o brif ddarpariaethau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).
- Yn deall y gweithdrefnau ar gyfer asesu galluedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Yn deall gweithdrefnau lles pennaf.
- Yn deall dyletswyddau sefydliadol mewn perthynas â gwneud addasiadau rhesymol a natur ragweledol y dyletswyddau hyn.
- Yn deall hawliau cyfreithiol pobl ag anableddau dysgu.
- Yn ymwybodol o'r gweithdrefnau yn ymwneud ag Amddifadu o Ryddid.
- Yn ymwybodol o ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983).
- Yn deall pwysigrwydd cyfrinachedd a chyfyngiadau cyfrinachedd.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Yn deall Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'i oblygiadau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Yn meddu ar wybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth hawliau dynol a'i pherthnasedd i fywydau pobl ag anableddau dysgu.
- Yn gwybod sut i gefnogi ac asesu galluedd yng nghyd-destun y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).
- Yn ymwybodol o'r strategaethau y gellir eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth pobl eraill o hawliau dynol a chyfreithiol pobl ag anableddau dysgu.

Sgiliau

Lefel Sylfaenol

Bydd yr holl staff yn gallu:

- Cymryd camau priodol pan fydd hawliau dynol pobl ag anableddau dysgu yn cael eu peryglu.
- Gweithredu'n briodol pan fydd pryderon diogelu yn cael eu nodi.
- Ceisio cymorth priodol mewn perthynas â galluedd a materion yn ymwneud â chaniatâd.

Lefel Estynedig

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Nodir angen i asesu galluedd.
- Ceisio cymorth priodol pan allai fod angen penderfyniadau lles pennaf.
- Gweithredu o fewn fframweithiau cyfreithiol mewn perthynas ag amddifadu o ryddid.
- Gweithredu o fewn fframweithiau cyfreithiol mewn perthynas â phrosesau cydsyniad.
- Gweithredu o fewn fframweithiau polisi a phroffesiynol perthnasol mewn perthynas â chyfrinachedd.

Lefel Uwch

Yn ogystal, bydd staff sy'n gweithio ar y lefel hon yn gallu:

- Cynorthwyo pobl i ddeall a defnyddio deddfwriaeth berthnasol i gefnogi hawliau pobl ag anableddau dysgu, a hwyluso eu mynediad at ofal iechyd.
- Cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).
- Cynnal asesiad o alluedd a chynorthwyo gweithdrefnau caniatâd.
- Defnyddio fframwaith y Ddeddf Iechyd Meddwl i sicrhau diogelwch unigolion ag anableddau dysgu a phobl eraill.

6. CYFLAWNI CYMHWYSEDD

Nod y fframwaith hwn yw amlinellu'r hyn y mae angen i staff gofal iechyd ei wybod, a'i wneud, er mwyn adnabod a diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu yn effeithiol: nid yw'n ceisio rhagnodi sut dylid cyflawni'r cymhwysedd hwnnw. Serch hynny, mae'n berthnasol amlygu rhai dulliau addysgol awgrymedig a all fod yn ddefnyddiol.

Felly, caiff y canlynol eu cynnig fel enghreifftiau yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o ddulliau:

- Ystafell ddosbarth
- E-ddysgu
- Efelychiad
- Gweithdai
- Hyfforddi a mentora
- Ymarferion datrys problemau
- Trafod achosion
- Storïau cleifion

Mae nifer o ffactorau'n debygol o ddylanwadu ar natur unrhyw gymorth addysgol sy'n ofynnol/a ddarperir, fel amser ac argaeledd staff, natur rolau gwaith unigol, y cyd-destun(au) maent yn gweithio ynddo/ynddynt, a phwysau cystadleuol y llwyth gwaith. Er y gallai dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gweithdai (er enghraifft) fod yn bosibl yng nghyd-destun rhaglenni addysgol cyn ac ar ôl cymhwyso, gallai fod angen ymagwedd fwy hyblyg i alluogi datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai y mae eu rolau'n golygu ei bod yn anodd trefnu amser i ffwrdd o'r

gweithle. Dan yr amgylchiadau hyn, gallai darparu deunyddiau addysgol ar-lein mewn talpiau 'bach' fod yn fwy ymarferol.

Pa ddull bynnag a ddefnyddir, mae'n bwysig bod y ffocws yn parhau ar brofiad gofal iechyd pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd. I'r perwyl hwn, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai fod cyfle i leisiau a phrofiadau pobl ag anableddau dysgu gael eu cynnwys, p'un a yw hynny drwy gysylltiad uniongyrchol neu drwy ddefnyddio recordiadau/clipiau fideo.

Yn ogystal, dylid cofio er y gallai fod angen rhywfaint o gymorth addysgol sy'n benodol i anableddau dysgu i helpu staff i gyflawni'r lefelau cymhwysedd penodedig, mae hefyd yn bosibl addasu hyfforddiant gorfodol presennol er mwyn sicrhau bod y meysydd allweddol o wybodaeth a sgiliau wedi'u cynnwys. Er enghraifft, gallai a dylai'r sail gyfreithiol ar gyfer sicrhau cydraddoldeb a gwneud addasiadau rhesymol i bobl ag anableddau dysgu gael ei hadlewyrchu yn yr hyfforddiant cydraddoldebau cyffredinol a ddarperir.

Nid yw o fewn cylch gwaith y fframwaith hwn i ragnodi a ellid neu a ddylid asesu cymhwysedd, a sut i wneud hynny. Fodd bynnag, yn ystod y broses ymgynghori a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn, cynigiwyd nifer o awgrymiadau sy'n cael eu cynnig i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau a'r gwerthoedd creiddiol yn ymwneud ag adnabod a diwallu anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu yn cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau rhaglenni cyn ac ar ôl cymhwyso i weithwyr iechyd proffesiynol
- Defnyddio hunansesu ac asesu cyfoedion
- Annog adfyfyrio ar arfer
- Goruchwyliaeth glinigol
- Annog defnyddio'r fframwaith hwn yng nghyd-destun ail-ddilysu proffesiynol
- Trafodaeth yn canolbwyntio ar elfennau o'r fframwaith hwn mewn arfarniadau/adolygiadau datblygu a pherfformiad
- Asesu ar lefel sefydliadol i ba raddau y caiff staff eu cynorthwyo i ddatblygu a chynnal y meysydd cymhwysedd hyn

7. SYLWADAU I GLOI

Mae'r ddogfen hon wedi nodi fframwaith y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo staff gofal iechyd i ddatblygu cymhwysedd a hyder i sicrhau bod gan bobl ag anableddau dysgu fynediad at ofal iechyd priodol ac amserol. Y gobaith felly yw y bydd yn cyfrannu at leihau'r anghydraddoldebau iechyd y maent yn parhau i'w profi. Fodd bynnag, ni fydd cynhyrchu dogfen yn cyflawni'r nod hwn ac felly mae'n rhaid ei ystyried yn gam cyntaf pwysig. Yr allwedd i lwyddiant fydd gweithredu a gwerthuso'n ofalus ac mae'n bwysig ein bod i gyd yn cydnabod bod gennym rôl i'w chwarae yn y broses hon ac y gallwn, trwy weithio gyda'n gilydd, sicrhau newid cadarnhaol.

CYFEIRIADAU

[1]Llywodraeth Cymru (2018) Llywodraeth Cymru (2018) Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau, Caerdydd: Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/anabledd-dysgu-rhaglen-gwella-bywydau-mehefin-2018.pdf (cyrchwyd 3/4/2020)

[2]Y Cenhedloedd Unedig (2006) Y Cenhedloedd Unedig (2006) Convention on the Rights of Persons with Disabilities, New York: UN; https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities.html (accessed 3/4/2020)

[3]Michael, J. (2008) Healthcare for All: Report of the Independent Inquiry into Access to Healthcare for People with Learning Disabilities, London: Department of Health; https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130105064250/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_099255 (cyrchwyd 3/4/2020)

[4]Emerson et al (2012) Emerson, E., Baines, S., Allerton, L., Welch, V. (2012) Health Inequalities and People with Learning Disabilities in the UK: Lancaster: Improving Health and Lives.

[5]Heslop et al (2013) Heslop, P., Blair, P., Fleming, P., Hoghton, M., Marriott, A., Russ, L. (2013) . Confidential Inquiry into Premature Deaths of People with Learning Disabilities (CIPOLD). Bristol: Norah Fry Research Centre.

[7]Glover et al (2017) Glover, G., Williams, R., Heslop, P., Oyinlola, J. Grey, J. (2017) Mortality in people with intellectual disabilities in England. Journal of Intellectual Disability Research, 61 (1) 62 - 74

[8]Appelgren (2018) Appelgren, M., Bahtsevani, C., Persson, K., Borglin, G. (2018) Nurses' experiences of caring for patients with intellectual disabilities: a systematic review using a meta-ethnographic approach. BMC Nursing. doi.org/10.1186/s12912-018-0316-9.

[9] Troller et al (2016) Troller, J.N., Eagelson, C., Turner, B., Salomon, C., Cashing, A., Iacono, T. Goddard, L., Lennox, N. (2016) Intellectual disability healthcare content within nursing curriculum: An audit of what our future nurses are taught. Nurse Education Today. 45, 72 – 79.

[10] Hemm et al (2015) Hemm, C., Dagnan, D., Meyer, T.D. (2015) Identifying training needs for mainstream healthcare professionals to prepare them for working with individuals with intellectual disabilities: a systematic review, Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities, 28, 98 – 110.

[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Lechyd Cyhoeddus Cymru. (2014) Improving General Hospital Care of Patients who have a Learning Disability, Cardiff: Public Health Wales http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/How%20to%20%2822%29%20Learning%20Disabilites%20Care%20Bundle%20web.pdf (cyrchwyd 3/4/2020)

APPENDIX 1

Enghreifftiau o brofiad byw:

1.
Mae Martha yn fenyw ag anabledd dysgu ysgafn. Mae'n byw'n annibynnol gyda'i chariad ac nid yw'n derbyn unrhyw gefnogaeth ffurfiol gan wasanaethau statudol. Mae hi'n aelod gweithgar o grŵp hunan-eiriolaeth ac yn sefyll dros anghenion pobl ag anabledd dysgu. Fodd bynnag, pan oedd Martha'n dioddef o rwymedd, nid oedd yn gallu disgrifio ei symptomau i'r meddyg teulu. Ychydig o brofiad oedd gan y staff gofal iechyd o anableddau dysgu ac ni wnaethant archwilio opsiynau i gefnogi cyfathrebu, megis holi cwestiynau hawdd eu darllen ac wedi'u targedu. Ni dderbyniodd Martha ofal digonol ac aeth yn ddifrifol wael gan orfod cael llawdriniaeth fawr gan dynnu rhan o'i choluddyn ac mae ganddi anghenion iechyd parhaol o ganlyniad.

2.
Mae Anita yn fenyw ag anableddau dysgu dwys a lluosog, mae'n dibynnu ar ofalwyr i ddiwallu ei holl anghenion. Roedd ei gofalwyr yn poeni ei bod mewn poen gan nad oedd yn ymddangos fel 'hi ei hun'. Fe wnaethant ymweld â'r meddyg teulu ar sawl achlysur a chawsant eu cynghori i gadw llygad gan nad oedd unrhyw arwyddion amlwg o salwch. Mynnodd staff iddi gael eu hatgyfeirio i'r ysbyty ar ôl cwblhau offeryn asesu poen yr oeddent yn credu ei fod yn dangos bod Anita mewn poen. Yn dilyn archwiliad yn yr ysbyty, canfuwyd bod gan Anita afiechyd clun difrifol a fyddai'n achosi poen difrifol. Bellach mae ganddi feddyginiaeth lleddfu poen parhaus ac mae'n ymddangos yn llawer hapusach.

3.
Mae Geraint yn ddyn ag anableddau dysgu cymedrol. Roedd yn ymddangos yn sâl un bore ac aethpwyd ag ef i'r ysbyty, roedd staff yn teimlo y gallai ei hanes o epilepsi fod yn gyfrifol am ei symptomau. Ond cwynodd ei chwaer, gan ei gwneud yn glir dro ar ôl tro ei bod wedi profi ei ymddygiad yn ystod trawiad ac nid dyma oedd ei symptomau arferol. Yn ddiweddarach, cafodd Geraint ddiagnosis o waedlif ar yr ymennydd a bu farw.

4.

Mae Gwynfor yn ddyn ag anableddau dysgu cymedrol ag anghenion cyfathrebu sylweddol. Cafodd gymorth i fynychu'r adran achosion brys ar benwythnos gan fod gofalwyr yn teimlo ei fod yn sâl ac yn dioddef â'r frest. Derbyniodd ECG ond dim profion pelydr-X na phrofion gwaed ac yna cafodd ei anfon adref. Parhaodd i gael problemau anadlu a gwelwyd ef ddwywaith dros y penwythnos gan y meddygon y tu allan i oriau a derbyniodd gwrthfiotigau rhagnodedig. Ar y bore Llun, cafodd Gwynfor asesiad mwy trylwyr, fe'i derbyniwyd i'r ysbyty, gyda niwmonia, a ddisgrifiwyd fel un 'difrifol' gydag un ysgyfaint yn gyfan gwbl wyn. Dirywiodd ei gyflwr a bu farw. Mae'n bosibl y gallai diagnosis cynharach o'i niwmonia fod wedi atal ei farwolaeth gynamserol.